WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Paul Matthews
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fynwy
Innovation House
Cil-y-coed
NP26 9AN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | NJS/CAUMCC/V2 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.uk |
| **Tudalen** | **1** o **14** |

Annwyl Paul

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu mewn perthynas ag a yw Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwella;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, ar sail gwaith a wnaed hyd yn hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor o ran meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu fy argymhellion; a
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith Asesu Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy marn yn ystod y flwyddyn ac yn darparu llythyr pellach erbyn diwedd Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac wedi gweithredu yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd canfu fy ngwaith archwilio ac asesu fod Amcanion Gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol 'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15' (y Cynllun) yn bodloni gofynion y mesur. Mae'r cynllun ar gael yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor a gellir darparu copi caled ar gais. Nid oes crynodeb o'r cynllun ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd a gellir darparu fersiwn Gymraeg ar gais.

Mae'r Cyngor wedi gosod tair blaenoriaeth strategol iddo'i hun: gwella ysgolion; diogelu pobl sy'n agored i niwed; a chefnogi menter, creu swyddi ac entrepreneuriaeth. Mae hefyd wedi blaenoriaethu a diogelu adnoddau rhag toriadau cyllideb yn y tri maes blaenoriaeth hyn.

Mae pump o'r chwech o Amcanion Gwella yn adlewyrchu'r tair blaenoriaeth hon ac mae'r chweched yn anelu at foderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn cael ei redeg drwy weithredu rhaglen newydd y Cyngor ar gyfer gweddnewid, sef 'Your County, Your Way'. Mae'r rhaglen newid hon wrthi'n cael ei chyflwyno fesul cam ar draws y Cyngor ar hyn o bryd, gan mai ei nod yw ysgogi newid diwylliannol er mwyn gosod sylfaen gadarn ar gyfer holl weithgarwch y Cyngor at y dyfodol. Mae'r rhaglen newid yn canolbwyntio ar bump o feysydd gweithgarwch craidd - gwaith rhwydweithiol a gweithio ystwyth; meddwl a gwneud trwy systemau; gweithio'n fentrus yn fewnol; datblygu cymheiriaid a datblygu gwybodaeth; a datblygu offer gwrando effeithiol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda NESTA[1] o dan y rhaglen Cynghorau Creadigol i gyflawni 'Your County, Your Way'.

Mae pob un o chwe Amcan Gwella'r Cyngor yn cynnwys crynodeb sy'n amlinellu'r rhesymeg benodol am eu dewis fel blaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae hyn yn cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, barnau partneriaid strategol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a materion cymunedol.

[1] Mae NESTA yn elusen annibynnol sy'n helpu pobl a sefydliadau i ddod â syniadau'n fyw ac i ddatblygu atebion arloesol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir beth mae pob un o'r Amcanion Gwella'n anelu i'w gyflawni mewn perthynas â'i flaenoriaethau, ac mae wedi nodi mesurau llwyddiant bras. Mae'n amlwg yn y Cynllun fod y Cyngor wedi gwneud gwaith pellach ar fireinio'i fesurau presennol a datblygu rhai newydd drwy ei ffocws parhaus ar ganlyniadau a chymhwyso dull Atebolrwydd ar Sail Canlyniad[2] (OBA) i gyflawni hyn. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut bydd y gweithredoedd a'r prosiectau ar gyfer pob Amcan Gwella'n cael eu rheoli drwy Gynlluniau Gwella Gwasanaeth (CGG) ar lefel adran unigol/tîm. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'n fras yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo cyflawni'r Amcanion Gwella.

Mae'r cysylltiadau rhwng yr Amcanion Gwella a mesurau llwyddiant cysylltiedig, gwaelodlinau a thargedau yn cael eu cryfhau a bydd angen i hyn barhau dros y 12 mis nesaf. Bydd y cysylltiadau gwell hyn yn ei gwneud yn haws i'r Cyngor ddangos ei fod yn cyflawni pob un o'r Amcanion Gwella'n effeithiol. Mae'r ffocws yn glir iawn mewn llawer o Amcanion, ac amlinellir yn glir beth yw effaith fwriadedig gwelliant. Er enghraifft, yr Amcan Gwella mewn perthynas â gwella addysg a dysgu yn Sir Fynwy, lle mae'r mesurau llwyddiant yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad ac mae'n amlwg beth yw'r canlyniad a fwriedir yn y pen draw.

Mae'r ffocws yn llai clir mewn amcanion eraill. Er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella i ddarparu dull cydgysylltiedig a chynhwysfawr o adfywio a datblygu ardaloedd, mae'r pwyslais ar adnewyddu pedair prif dref y sir - Trefynwy, Y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed. Ar gyfer 2012-13, rhoddir blaenoriaeth i weithgarwch yng Nglannau Hafren a'r Fenni, ond nid yw'r cynllun gwella'n cynnwys unrhyw fesurau llwyddiant sy'n canolbwyntio'n benodol ar farnu effaith gadarnhaol y gwaith hwn yn yr ardaloedd hyn, ac yn wir yn y pedair tref yn gyffredinol. Mae'r mesurau a ddefnyddir yn eang ar y cyfan ac nid yn benodol i'r cymunedau hyn, a bydd hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor farnu effaith a dangos gwelliant. Mae angen i'r Cyngor gryfhau ymhellach y ffordd mae'n cysylltu'r ffocws ar gyfer gweithgarwch gwella blynyddol o dan bob un o'i Amcanion Gwella, y cynlluniau gweithredu ar gyfer cydlynu cyflawni a'r mesurau ar gyfer barnu llwyddiant.

Daeth etholiadau awdurdod lleol ym mis Mai 2012 â newid i drefniadau gweinyddu'r Cyngor. Mae'r Cyngor bellach yn cael ei arwain gan Weinyddiaeth Bartneriaeth sy'n cynnwys Grwpiau Ceidwadol a Democratiaid Rhyddfrydol. Cadwyd ei Aelodau Cabinet blaenorol gan yr Arweinydd, gan ychwanegu Arweinydd y grŵp Democratiaid Rhyddfrydol i'r Cabinet. Mae cytundeb partneriaeth wedi'i ddatblygu a'i lofnodi gan y ddau grŵp gwleidyddol, ac mae'n sylfaen i waith y Weinyddiaeth ac yn cadarnhau ei blaenoriaethau. Mae'r gwrthbleidiau bellach yn cyfrif am 21 o'r 43 o aelodau'r Cyngor. Mae'r Weinyddiaeth Bartneriaeth eisiau parhau i fwrw ymlaen ag agenda moderneiddio a dangos bod y newidiadau y mae'n eu gwneud yn arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion.

[2] Mae Atebolrwydd ar Sail Canlyniad yn canolbwyntio ar farnu effaith a chanlyniadau a'r gwahaniaeth y gall gwasanaethau ei wneud i ansawdd bywyd pobl.

Amlinellodd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae'r gofyniad i gynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb yn cyd-fynd yn sylweddol â'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Mae 'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15' yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n dangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r amcanion statudol hyn wrth bennu ei Amcanion Gwella a'i Gynllun Gwella.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yn hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i hynny, rwyf o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'i ofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym. Mae angen cryfhau'r systemau sydd ar waith i gydlynu a rheoli canfyddiadau a chanlyniadau rhywfaint o'n gwaith.**

Adroddais yn flaenorol am nifer o argymhellion a chynigion ar gyfer gwella, a nodais hefyd rai meysydd lle byddem yn gwneud gwaith pellach. Rhoddir crynodeb isod am y cynnydd ar y materion hyn, ac fe'i disgrifir yn fanylach yn Atodiad 1.

At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella. Er enghraifft, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Pobl 2012 yn ddiweddar, ac mae'n ymgymryd â rhaglen sylweddol o newid sefydliadol drwy 'Your County, Your Way'. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn meysydd eraill, fel datblygu mesurau canlyniadau cadarn. Mewn nifer fach o feysydd, dim ond ychydig o gynnydd a wnaed hyd yma, neu ddim cynnydd o gwbl. Er enghraifft, yn erbyn ein cynnig ar wella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i helpu gwneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus. Mae'r Cyngor yn cydnabod y diffyg cynnydd yn y maes hwn ac nid yw'n ei ystyried yn waith blaenoriaeth.

Mae'r Cyngor yn llunio'i ymateb i reoli'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol ac arolygwyr, ar sail penderfynu a yw'r cynnig yn newid arfer sylfaenol neu'n newid i arferion gweithio o ddydd i ddydd. Yn gyffredinol, caiff gweithredoedd eu cipio mewn CGGau a rhoddir arweiniad clir i'r rhain, ac mae systemau rheoli ac atebolrwydd priodol ar waith i olrhain cynnydd o ran eu cyflawni ac asesu'u heffaith. Caiff CGGau eu monitro gan yr Adrannau cyfrifol, y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Pwyllgor Archwilio a Chyfrifon, Pwyllgorau Dethol a'r Cabinet mewn cylch chwe misol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adnewyddu'u CGGau i'w cysoni â 'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15'. O ganlyniad, nid oes modd pennu pa mor llawn yr ymgorfforwyd y broses CGG ar hyn o bryd, a byddwn yn adolygu

effeithiolrwydd y dull hwn o weithio fel rhan o'n gwaith i lywio ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.

Canfuom fod y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio ill dau wedi derbyn ein Hadroddiad Asesu Corfforaethol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol, yn ogystal â chanfyddiadau Rheoleiddwyr ac Arolygiaethau eraill. Mae hyn yn helpu Aelodau i asesu sut mae'r Cyngor yn perfformio, ac ystyried barn annibynnol o ddull y Cyngor o gyflawni gwelliant i ddinasyddion.

Nid yw ein hadolygiadau diweddar yn seiliedig ar wasanaethau yn cael eu cyflwyno bob tro i bwyllgorau dethol ac yn gyffredinol cânt eu rheoli o fewn gwasanaethau. Er mwyn olrhain cyflawni'r cynigion hyn ar gyfer gwella, rydym wedi cynnal archwiliad o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella ein Hadolygiad o Dechnoleg yr adroddwyd arno i'r Cyngor ym mis Hydref 2011. Canfu ein hadolygiad ym mis Awst 2012 fod pedwar o'n cynigion allweddol ar gyfer gwella wedi'u dwyn yn eu blaen. Dylai trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli, monitro ac arfarnu gweithrediad ein cynigion gael eu cryfhau yn sgil adrodd yn well i'w Bwyllgorau Dethol ac o fewn gwasanaethau.

Lle mae gweithredoedd yn dal i fynd rhagddynt, byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd y Cyngor o ran eu cyflawni. Mae mwy o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn rhai o'r meysydd hyn yn cael ei darparu ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle bo hynny'n briodol.

**Mae'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cydlynu ac adrodd am berfformiad yn effeithiol, ond ceir diffyg cadernid mewn rhai systemau ar gyfer rheoli perfformiad o fewn gwasanaethau.**

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda os yw i ddarparu gwasanaethau da a'u gwella hyd yn oed yn fwy. Mae gan y Cyngor systemau sefydledig ar gyfer adrodd am ei berfformiad, ac aethom ati i archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar er mwyn asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Mae'r mesurau a ddewisom ar gyfer archwilio yn gymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau, a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae pob un o'r rhai a archwiliwyd yn fesurau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i farnu pa mor dda mae'n cyflawni'i amcanion gwella, a ph'un a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

Canfuom fod gan y Cyngor systemau da ar waith yn gyffredinol ar gyfer rheoli gwybodaeth am berfformiad, er bod un o'r 13 o fesurau a archwiliwyd yn amodol. Byddwn yn adrodd ar berfformiad gwasanaethau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.

**Mae gan y Cyngor hanes da o gynllunio ariannol ac o ymdopi â llai o arian, ac mae ei barodrwydd i arloesi a herio ffyrdd traddodiadol o weithio yn ei gefnogi i foderneiddio'r ffordd y mae'n gweithio. Mae cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf yn parhau'n anodd, a byddai mwy o waith ar ddangos effaith penderfyniadau ariannol ar fywydau dinasyddion yn cryfhau atebolrwydd.**

Mae dealltwriaeth dda gan y Cabinet a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol o faterion ariannol, ac mae hyn wedi arwain at broses cynllunio ariannol tymor canolig gadarn iawn ers rhai blynyddoedd bellach. Mae parodrwydd gan y Cyngor i ystyried ystod eang o ddewisiadau ac mae'n gweddnewid y modd y mae'n cyflwyno gwasanaethau i ddinasyddion drwy 'Your County, Your Way'. Mae tystiolaeth yn fframwaith cynllunio ariannol y Cyngor bod targedau lefel uchel a thargedau strategol allweddol Llywodraeth Cymru'n cael eu hymgorffori mewn targedau fel y targedau gwastraff cenedlaethol, ysgolion yr 21ain ganrif a diogelu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed.

Mae dealltwriaeth dda gan y Cyngor o'r pwysau costau mae'n eu hwynebu, ac mae ganddo systemau da ar waith i asesu ac adolygu perfformiad yn gyson. Gwneir diweddariadau rheolaidd o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) trwy gydol pob blwyddyn. Mae'r Cyngor wedi datblygu dull manwl a systematig o adolygu cyllidebau refeniw, ac mae hyn wedi ei alluogi i leihau gwariant yn unol â gostyngiadau yng nghymorth llywodraeth ganolog.

Caiff gwybodaeth ariannol gyson a rheolaidd ei chynhyrchu sy'n dangos perfformiad ar gyllidebau refeniw a chyfalaf. Adroddir y wybodaeth hon ar lefelau amrywiol o fewn y Cyngor; i'r Cabinet a Phwyllgorau Dethol bob chwarter; ac mae'n destun craffu a herio. Y gyllideb Refeniw ar gyfer 2012-13 yw £149.148 miliwn ac mae'r Cyngor wedi nodi angen i sicrhau arbedion o ryw £5 miliwn i gydbwyso cyllideb 2012-13. Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion cyllideb refeniw ac o weithredu o fewn ei gyllideb, ac mae wedi cyflawni gwarged o £4 miliwn ar ei gyllideb 2011-12. Ni wnaed rhagamcan o'r lefel tanwariant hon yn yr adroddiadau monitro cyllideb i Aelodau. Ym mis tri, fe wnaeth y Cyngor ragweld gorwariant o £0.6 miliwn a oedd wedi newid i danwariant o £1.6 miliwn ym mis naw. Llwyddwyd i gyflawni'r sefyllfa alldro cadarnhaol hon yn sgil perfformiad gwell ar weithgarwch trysorlys a derbyniadau'r dreth gyngor, grant cytundeb canlyniadau uwch a chostau llai na'r disgwyl i setlo hawliadau cyflog cyfartal.

O ran gwariant cyfalaf, mae'r Cyngor yn wynebu mwy o heriau gan y rhagwelir y bydd gwariant yn lleihau'n sylweddol o £28.778 miliwn yn 2012-13 i £7.006 miliwn yn 2015-16. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi angen am adnoddau cyfalaf gwerth £273.5 miliwn i wella seilwaith, datblygu gwasanaethau newydd ac uwchraddio cyfleusterau presennol.

Cyfyngedig yw'r gwaith a wnaed ar newidiadau demograffig, yn bennaf am nad yw gwybodaeth am anghenion / galw tymor canolig wedi'i datblygu'n dda ac nad yw ar gael yn rhwydd. Gellid cryfhau proses y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gyda dadansoddi cliriach a ffocws ar y galw a'r angen yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys rhai pwysau costau o fewn gwasanaethau, a rhai tymor byr yw'r rhain yn gyffredinol. Caiff y Cynllun ei ddiweddaru'n rheolaidd ac mae'r dull hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod y wybodaeth mae'n ei defnyddio i wneud dewisiadau am gyllidebau wedi'i seilio ar berfformiad gwirioneddol i gynorthwyo gwell proses benderfynu.

Yn ddiweddar, aeth y Cyngor ati i gasglu gwybodaeth ar brif lefel i ddangos effaith penderfyniadau cyllideb a newidiadau'n deillio o adolygiadau 'meddwl trwy systemau' ar wasanaethau gwahanol; er enghraifft, effaith yr adolygiad diweddar o'r Ganolfan Groeso a chyflwyno rhaglen Llesgedd Gwent fesul cam. Fodd bynnag, nid yw effaith gostyngiadau mewn gwariant a newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno mewn rhai ardaloedd eraill yn amlwg bob amser i ddinasyddion. Gwnaed cryn dipyn o waith hefyd ar wasanaethau a rennir a chydweithredu gyda chynghorau cyfagos a chyrff eraill y sector cyhoeddus fel y gwasanaeth gwella ysgolion ledled Gwent.

**Mae partneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i weledigaeth rhaglen Llesgedd Gwent, ac maent wedi creu fframwaith cadarn rheoli rhaglen i fod yn sylfaen iddi. Mae Llesgedd Gwent ar gyfnod cynnar o ran ei datblygu, ac mae heriau'n parhau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, i newid hen ymddygiadau ac i ddangos ei effaith.**

O fis Ebrill 2011, fe wnaeth Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Mynwy, Casnewydd a Thorfaen ddechrau gweithredu model integredig uchelgeisiol o iechyd a gofal cymdeithasol o'r enw Rhaglen Llesgedd Gwent. Mae statws cyfreithiol i'r rhaglen o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33[3] rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum awdurdod lleol, ac fe'i cefnogir gan £6.9 miliwn o Gyllid Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru. Mae nodau Rhaglen Llesgedd Gwent yn arbennig o berthnasol i'r ffordd y mae cyrff y sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig yn defnyddio'u hadnoddau, ac maent yn ganolog i gyflawni blaenoriaethau gwella ym mhob asiantaeth dan sylw.

Aeth Swyddfa Archwilio Cymru ati i gynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer rhoi Rhaglen Llesgedd Gwent ar waith, gan ganolbwyntio ar ddarparu sicrwydd cynnar mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, a chyfeiriad teithio tuag at gyflawni nodau a chanlyniadau a fwriadwyd, yn hytrach nag arfarnu llwyddiant. Daethom i'r casgliad fod Partneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i weledigaeth Rhaglen Llesgedd Gwent a'u bod wedi creu fframwaith cadarn rheoli rhaglen i fod yn sylfaen iddi. Mae Rhaglen Llesgedd Gwent ar gyfnod cynnar o ran ei datblygu, ac mae heriau'n parhau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, i newid hen ymddygiadau ac i ddangos ei effaith.

**Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy gryfderau sylweddol mewn nifer o feysydd, ac mae'r Cyngor yn realistig ynglŷn â'r angen i reoli'r galw cynyddol o bwysau demograffig drwy ymyriadau cynnar. Mae'r dulliau hyn mewn gwahanol gyfnodau o'u datblygu, a'r her i'r Cyngor yw parhau i gyflawni canlyniadau gwell o fewn cyllidebau cyfyngedig.**

---

[3] Sefydlwyd cytundeb partneriaeth o dan Adran 33 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i ganiatáu ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a rhoi cyllidebau ynghyd i gyflwyno prosiect llesgedd Gwent.

Cynhaliwyd arolygiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2011, a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Mai 2012. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y ddau wasanaeth, gan gynnwys dull Sir Fynwy o fynd ati i foderneiddio gwasanaethau. Er bod yr arolygiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau gofal cartref i oedolion a phenderfynu a yw'r Cyngor wedi cyflawni canlyniadau da i'r plant a'u teuluoedd yr oedd angen cymorth arnynt, cynigiodd sylwadau hefyd ar yr amgylchedd rheoli ac arfer ehangach, ac mae'r canfyddiadau allweddol hyn yn berthnasol o ran trefniadau corfforaethol y Cyngor.

Canfu'r arolygiad fod yr awdurdod lleol yn gorfforaethol yn blaenoriaethu cymorth i blant ac oedolion sy'n agored i niwed, a'u diogelu. Mae staff a rheolwyr ar bob lefel yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gyson. Darperir gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo buddiannau gorau'r defnyddiwr gwasanaeth, boed yn blentyn, yn unigolyn ifanc neu'n oedolion. Mae'r Prif Weithredwr yn dangos y gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y mae'n eu disgwyl gan bob aelod o staff yn y Cyngor, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ble bynnag mae hyn yn rhoi canlyniadau gwell. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol amryw o bartneriaethau cydweithredol sy'n cynyddu dewis ac yn annog annibyniaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u teuluoedd. Dangosir hyn yn dda ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Er gwaethaf dadansoddiad cyffredinol ar fapio anghenion demograffig, nid yw angen nas diwallwyd yn cael ei gasglu'n systematig mewn gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion na Phlant. Nid yw gwybodaeth ddienw o asesiadau a chynlluniau gofal unigol yn cael ei chasglu'n gyffredinol i gefnogi comisiynu strategol, ac mae hynny'n gyfle sy'n cael ei golli.

Mae staff llinell flaen mewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant naill ai wedi symud neu ar fin symud i leoliadau gwahanol er mwyn cefnogi amcanion y gwasanaeth yn fwy effeithiol. Law yn llaw â gweithio ystwyth, lle mae technoleg yn galluogi pobl i weithio gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth ble bynnag y maent, dylai hyn alluogi defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae adborth gan rai staff yn awgrymu ei fod hefyd wedi creu rhywfaint o densiynau ychwanegol y mae'n rhaid eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau ynglŷn â llai o gyfleoedd i rannu arfer yn anffurfiol gyda'u cymheiriaid. Bydd angen i'r uwch dîm rheoli sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae staff mewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn gweithio mewn amgylchedd prysur. Adrodda'r uwch reolwyr fod Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn ystyried ail-ddylunio systemau i sicrhau bod ganddynt lifoedd gwaith effeithiol, bod trothwyon yn gyson a bod staff yn gallu canolbwyntio ar elfennau allweddol ymarfer. Mae polisi goruchwylio adrannol ar waith. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn mynegi gwerthfawrogiad o'r cymorth a gânt gan reolwyr yn ystod goruchwylio. Fodd bynnag, mae amrywiadau yn y ffordd y caiff goruchwyliaeth ei chofnodi ac mae'r prosesau monitro wedi'u cymhwyso'n anghyson. Ar gyfer staff mewn Gwasanaethau Oedolion y cynhaliwyd gwerthuso blynyddol yn gyffredinol, ond roedd yn llawer llai tebygol o fod wedi'i gynnal mewn Gwasanaethau Plant. Gallai'r cynnydd rhagorol sydd wedi'i wneud o ran recriwtio a chadw staff gael ei danseilio pe bai'r galw'n yn fwy o lawer na chapasiti'n gyson.

Mae Estyn ar fin cynnal arolygiad o'r gwasanaeth addysg awdurdod lleol ym mis Tachwedd 2012. Byddwn yn adrodd ar ganlyniad hyn yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Mae rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn cael eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth roi'r cynigion a gyflwynwyd yn fy adroddiadau a'm llythyron blaenorol ar waith.

| | |
|---|---|
| **Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Gwelliant** | |
| C1 | Pennu mesurau llwyddiant sy'n canolbwyntio'n benodol ar farnu effaith y rhaglen weithredu flynyddol ar gyfer pob amcan gwella er mwyn galluogi arfarnu pa mor llwyddiannus yw perfformiad o ran cyflawni canlyniadau. |
| **Cynigion ar gyfer Gwella – Rhoi cynigion ar waith ar gyfer Gwella** | |
| C2 | Adrodd i'r pwyllgorau dethol priodol am berfformiad o ran mynd i'r afael â chanfyddiadau ein hadolygiadau'n seiliedig ar wasanaethau, er mwyn galluogi aelodau i graffu a herio gwasanaethau. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesu Gwella yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod yr asesiad eleni ac, yn benodol, sut byddwn yn ychwanegu gwerth trwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried f'ymgynghoriad ag awdurdodau gwella ynghylch fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i'm Tîm Asesu Gwella, yn ystod y flwyddyn, ystyried faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethiant wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad o Berfformiad Blynyddol). Rhoddaf sylwadau ar yr ymagwedd hon yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Bydd ein gwaith cytun i arfarnu pa gynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ym meysydd cydweithredu ac asesiadau effaith yn seiliedig ar wasanaethau o ostyngiad mewn cyllidebau ac adnoddau yn cael ei gwblhau cyn eich Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf. Byddwn hefyd yn archwilio perfformiad y Cyngor yn erbyn ei Amcanion Gwella ac yn adolygu sut yr aeth ati i hunanasesu ac adrodd ar ei berfformiad. Byddaf hefyd yn adrodd ar gasgliadau o waith rheoleiddwyr eraill.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso'n gwaith, a gobeithiaf weld trefniadau mwy effeithiol ac effeithlon byth yn datblygu gydag amser. Rwyf yn ymrwymo o hyd i gynnig lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus a'ch cefnogi chi i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o ostyngiad mewn adnoddau a newid o ganlyniad.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Non Jenkins, Rheolwr Rhanbarthol
Nick Selwyn, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 1. Arfarnu effaith cyllidebau llai, nodi a delio â risgiau ac adrodd yn gyhoeddus ar yr effaith ar wasanaethau llinell flaen. | Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio'i ymagwedd at gynllunio ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn tynnu sylw at ei sefyllfa ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig, ac mae'n amlinellu senarios amrywiol sy'n galluogi'r Cyngor i ragweld amgylchiadau newidiol ac i reoli ei risgiau ariannol. Mae angen i'r Cyngor leihau ei wariant refeniw ac ym mis Chwefror 2012, wrth bennu ei gyllideb, adroddodd y Cyngor fod angen iddo sicrhau arbedion gwerth £5.018 miliwn yn 2012-13. Caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei adnewyddu'n flynyddol (fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn fel arfer) ac mae gan y Cyngor afael clir a da ar ei gyllid. Mae'r diweddariadau'n canolbwyntio ar y sefyllfa bresennol ac yn diweddaru rhagdybiaethau. Yr un maes lle gellid cryfhau'r broses yw dadansoddi cliriach a ffocws ar y galw a'r angen yn y dyfodol. Nid yw hyn wedi'i wneud eto yn y rhan fwyaf o feysydd. |
| 2. Dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â chynigion a chamau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau archwilio a rheoleiddio allanol blaenorol. | Mae'r Cyngor, at ei gilydd, wedi gwneud cynnydd yn erbyn y rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella. Er enghraifft, yn ddiweddar cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Pobl 2012, ac mae'n ymgymryd â rhaglen sylweddol o newid sefydliadol drwy 'Your County, Your Way'. Mae gwaith i'w wneud o hyd mewn meysydd eraill, fel datblygu mesurau canlyniadau cadarn ac wrth gyflwyno holl gasgliadau rhywfaint o'n gwaith thematig. Nid oes fawr o gynnydd, neu ddim cynnydd, wedi'i wneud mewn nifer fach ohonynt. Er enghraifft, ein cynnig ar wella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i helpu gwneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus. Mae'r Cyngor yn cydnabod y diffyg cynnydd yn y maes hwn ac nid yw'n edrych arno fel gwaith blaenoriaeth. |
| 3. Gwella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill er mwyn helpu gwneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus. | Gwaith cyfyngedig mae'r Cyngor wedi'i wneud ar feincnodi a chymharu costau. Yn hytrach, mae'r Cyngor wedi mynd ati i wella'i ddull o gynllunio'n ariannol a dadansoddi gwerth am arian drwy ddiweddaru ac adnewyddu'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn rheolaidd. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i ddiweddaru perfformiad presennol a'r rhagdybiaethau sylfaenol sy'n effeithio ar wneud defnydd gwell o'r arian sydd ar gael iddo. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 4. Sicrhau bod ymrwymiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cyflawni ac y cydymffurfir â hwy. | Penodwyd Swyddog amser llawn y Gymraeg a Chydraddoldebau gan y Cygnor yn ddiweddar, ac mae'n blaenoriaethu gwaith pellach yn y maes hwn. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn mynd ati i gyflawni ei ymrwymiadau strategol mewn perthynas â'r Gymraeg, a byddwn yn crynhoi casgliadau allweddol adroddiad monitro blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |
| 5. Pennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer yr holl amcanion, a chefnogi monitro perfformiad effeithiol drwy adrodd yn rheolaidd a chlir ar ganlyniadau. | Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran mireinio a gwella'i amcanion gwella i sicrhau ei fod yn gallu dangos effaith a chanlyniadau'n well. Yn 'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15' amlinellir Amcanion Gwella'r Cyngor o dan fodel Atebolrwydd ar Sail Canlyniad sy'n cynnwys:<br>• naratif sy'n pennu'r cyd-destun ar gyfer yr amcan gwella;<br>• pa mor llwyddiannus y buom yn ystod 2011/12? – adran sy'n asesu perfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol gan ddefnyddio fframwaith Atebolrwydd ar Sail Canlyniad gan nodi faint/pa mor dda/a oes unrhyw un wedi elwa;<br>• beth rydym yn ei wneud i wella – ffocws gwaith wrth fynd ymlaen a fydd yn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r problemau/heriau mae wedi'u nodi;<br>• yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r gwaith;<br>• mesurau llwyddiant – defnyddio'r model Atebolrwydd ar sail Canlyniad gan nodi faint/pa mor dda/a oes unrhyw un wedi elwa; a<br>• chysylltiadau â gweithgareddau gwella eraill y cyngor/cymunedau.<br><br>Mae cysylltiadau rhwng blaenoriaethau craidd y Cyngor a'r canlyniadau poblogaeth a geisir yn Sir Fynwy yn cael eu hamlinellu hefyd ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella unigol. Mae rhai o'r amcanion gwella yn eang ac mae'n glir beth gall dinasyddion ddisgwyl ei weld yn gwella o dan y fframwaith mesur Atebolrwydd ar sail Canlyniad. Fodd bynnag, mae'r ffocws yn gul iawn mewn amcanion gwella eraill; nid yw'n glir beth fydd effaith gweithgarwch yn arwain ato; ac nid yw'r mesurau i farnu llwyddiant yn canolbwyntio ar ganlyniadau, neu maent yn rhy eang i fesur effaith gweithgarwch.<br><br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn mynd ati i reoli perfformiad, yn enwedig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella, a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 6. Gwella trefniadau hunanasesu ac adroddiadau am berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi gwella'i ddull o adrodd am ei berfformiad ac yn asesu cynnydd o ran cyflawni ei flaenoriaethau allweddol. Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad a gyhoeddwyd yn ym mis Hydref 2011 yn defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth nag mewn adroddiadau blynyddoedd blaenorol. Fe allai'r Cyngor ddatgan yn gliriach pa elfennau o'i wasanaethau sy'n gwella a pha elfennau sy'n dirywio, a dweud yn glir beth mae hyn yn ei olygu i ddinasyddion yn y dyfodol. Yn yr un modd, nid yw'r Cyngor yn adrodd yn gyson i'w bwyllgorau craffu am gynnydd o ran cyflawni Amcanion Gwella a pherfformiad ehangach gwasanaethau. Mae hwn yn faes y mae'r Cyngor am fynd i'r afael ag ef wrth ddatblygu'r blaenraglenni gwaith craffu yn 2012-13. |
| 7. Nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth a sicrhau bod modd monitro perfformiad yn eu herbyn. | Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â gwaith drwy ei adolygiadau o wasanaethau meddwl trwy systemau er mwyn gwella ffocws gwasanaethau i ddinasyddion a sicrhau bod y lefel a'r ymateb mwyaf priodol yn cael eu darparu sy'n diwallu anghenion trigolion Mynwy.<br><br>Rydym yn bwriadu cynnal asesiad effaith yn seiliedig ar wasanaethau o ostyngiad mewn cyllidebau ac adnoddau, a byddwn yn adrodd am ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Asesu Gwelliant. Bydd yr adolygiad hwn yn nodi ac yn asesu effaith gostyngiadau mewn refeniw, adnoddau cyfalaf ac adnoddau dynol ar wasanaethau, ac yn arfarnu pa un a yw'r Cyngor yn parhau i ddod i ben â chyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i amcanion gwella'n effeithiol. |
| 8. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith wrth greu trefniadau cydweithio a gwasanaethau integredig, sy'n destun gwerthusiad rheolaidd o'u heffaith. | Canfu ein hadolygiad o raglen Llesgedd Gwent fod y trefniadau llywodraethu yn ymddangos yn gadarn ac yn gweithio'n effeithiol. Rhoddwyd cymorth gan gynghorwyr ac ymgynghorwyr cyfreithiol arbenigol i lunio cytundeb Adran 33 sy'n amlinellu atebolrwyddau priodol y partneriaid. Cyfansoddwyd y Cydbwyllgor Llesgedd (FJC) o dan y cytundeb Adran 33 fel corff penderfynu ffurfiol gyda chynrychiolwyr o bob partner. Mae cynrychiolaeth gyfartal gan bob partner ar y Cydbwyllgor hwn. Mae'r cytundeb Adran 33 yn galluogi Llesgedd Gwent i sefydlu cyllideb gyfun hefyd, a chanfuom fod trefniadau i arweinwyr enwebedig reoli meysydd fel cyllid ac adnoddau dynol yn gweithio'n dda.<br>Rydym yn cynllunio i gynnal adolygiad o risg llywodraethu cydweithredu a fydd yn nodi ac yn mapio'r lefel o gydweithredu sy'n digwydd o fewn y Cyngor, ac yn asesu risg effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu wrth sefydlu mentrau cydweithredol. Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio ar asesu pa un a yw buddion disgwyliedig cydweithredu'n cael eu gwireddu ac a yw gwelliant o ran amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u gwella, a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 9. Ffurfioli a chyhoeddi'r cynllun gweithlu gan osod gofynion staffio'r dyfodol sy'n cydredeg â gwaith ar reoli asedau a chynllunio ariannol tymor canolig. | Yn 2011-12 cwblhaodd y Cyngor adolygiad meddwl trwy systemau o'i swyddogaethau adnoddau dynol, a chyhoeddodd ei 'Strategaeth Pobl 2012' yn ddiweddar. Diben 'Strategaeth Pobl 2012' yw "Cydweddu staff i ddiwallu anghenion y sefydliad nawr ac yn y dyfodol". Mae cynllun gweithredu tymor canolig yn sail i'r Strategaeth, ac mae hwn yn canolbwyntio ar wyth maes gweithgarwch craidd:<br>• data'r gweithlu;<br>• polisïau'r gweithlu;<br>• cyfleu'r strategaeth newydd i staff;<br>• gweithredu dulliau newydd sy'n pwysleisio ymddygiad ac agweddau;<br>• lledaenu Gweithio'n fewnol/meddwl yn greadigol ar draws y Cyngor;<br>• ymgorffori ymagweddau systemau cyfan ar draws y Cyngor;<br>• cysylltu â chytundebau perfformiad a chanlyniadau; ac<br>• adolygu cynnydd. |